

Dirnad Economi Cymru

Adroddiad chwarterol

Ebrill 2020

1. Cyflwyniad	5
2. Rhagolygon economaidd y DU a rhanbarthol	6
3. Y darlun BBaCh yng Nghymru: deall ffactorau sy'n llunio'r galw am gyllid	9
4. Darpariaeth cyllid BBaCh a chost cyllid	14
5. Gweithgaredd Banc Datblygu Cymru	20
6. Casgliadau	25

Max Munday, Annette Roberts, Nikos Kapitsinis

Uned Ymchwil Economi Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd
mundaymc@cf.ac.uk

Am wybodaeth bellach neu i gyflwyno adborth a chynigion ymchwil,
anfonwch e-bost at: DirnadEconomi@bancdatblygu.cymru

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyngori ar gynhyrchu'r adroddiad hwn ond nid yw'n gyfrifol am y safbwyntiau neu'r ystadegau a gyflwynwyd ac nid yw wedi dilysu'r cynnwys

Dirnad Economi Cymru Cyf, Uned Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam, Cymru, LL13 7YL, 11001584.

Mae Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yn gwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau gan gynnwys y llythrennau blaen BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo llwyr i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ARhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Banc Datblygu Cymru (Development Bank of Wales Plc) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr ARhA. Sylwer nad yw Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu fel y cyfryw. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o'r endidau grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Gellir dod o hyd i siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc bancdatblygu.cymru

Cwblhawyd yr adroddiad hwn ddiwedd mis Mawrth 2020 wrthi oblygiadau economaidd yr achosion Coronafirws ddechrau cael eu teimlo. Mae'n anodd rhagweld canlyniadau economaidd cychwyniad y coronafirws hwn ar y galw am ac ar yr ochr gyflenwi cyllid i BBaCh yng Nghymru, ac yn wir ar dwf economaidd Cymru. Cyhoeddodd y Gyllideb ym mis Mawrth gynllun gwerth £12 biliwn i ddechrau i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus, unigolion a busnesau a chytunodd Llywodraeth y DU hefyd i ddarparu cefnogaeth i gwmnïau a fyddai â chostau uwch neu broblemau llif arian a achosir gan y coronafirws. Yn gynwysedig yn hynny o beth roedd gwell rhyddhad mewn Ardrethi Busnes, Cynllun Benthycia Ymyrryd ar Fusnes newydd i gefnogi benthycia i BBaCh, a chynllun grant o £2.2 biliwn ar gyfer cwmnïau bach. Fodd bynnag, ehangwyd cwmpas y cymorth yn gyflym lai nag wythnos ar ôl y Gyllideb (17eg Mawrth) gyda chyfanswm pecyn cymorth o £330bn yn cael ei gyhoeddi a disgwylir i fwy ddilyn hyd yn oed. Yn holl bwysig, daw'r pandemig ar ben problemau economaidd a achosir gan lifogydd eang ar ôl Stormydd Ciara a Dennis. Daw'r ACh3 2019/20 hwn hefyd yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE a dechrau'r cyfnod trosglwyddo.

Cyn yr achosion coronafirws, roedd economi'r DU eisoes yn dangos tystiolaeth o arafu (CDG y DU yn 2019Ch4 yn aros yn ddigyfnewid o gymharu â'r chwarter blaenorol), gyda phryderon yn dod i'r amlwg yn y sector gweithgynhyrchu, yn bennaf oherwydd gostyngiad ym maes cynhyrchu ceir. Mewn llawer o'r hyn sy'n dilyn yn yr ACh hwn, dim ond ar amodau sy'n datblygu ym mis Mawrth 2020 y gellir darparu sylwebaeth, ni wneir unrhyw ymdrech ac eithrio yn y termau mwyaf cryno, i ddarogan, ar hyn o bryd, beth fydd effeithiau'r pandemig ar yr economi rhanbarthol a'r DU. **Fodd bynnag, mae'r ACh3 hwn yn bwysig fel meincnod o amodau economaidd a BBaCh cyn i effeithiau'r Coronafirws esblygu yng Ngwanwyn 2020.**

Mynegai Hyder Busnesau Bach a Chanolig Cymru yn syrthio'n gyflym yn Ch4 2019

Syrthiodd hyder BBaCh Cymru i diriogaeth negyddol yn Ch3 2019 (-13%) ac yn fwy negyddol eto (-27%) yn Ch 4 2019. Dyma'r ffigwr ail isaf ar draws rhanbarthau'r DU.

Mae ACh3 yn datgelu bod buddsoddiad busnes y DU wedi gostwng 1% yn 2019Ch4, yn dilyn dim newid yn 2019Ch3 a dirywiad o 0.4% yn 2019Ch2. Mae'r amcangyfrifon CDG chwarterol (arbrofol) diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Cymru ar gyfer 2019Ch2 yn datgelu cynnydd o 0.4%, yn dilyn dirywiad diwygiedig o 0.6% yn ystod 2019Ch1.

De Ddwyrain Cymru oedd â'r crynodiad uchaf o BBaCh yng Nghymru yn yr holl fandiau maint yn 2019. Y sector cyfanwerthu / manwerthu masnach oedd â'r nifer uchaf o weithwyr BBaCh yn 2019, gyda'r sector cynhyrchu yn cofnodi'r nifer cyfartalog uchaf o weithwyr fesul cwmni.

Mae canlyniadau'r arolwg yn mynegi mai **Cymru oedd â'r gyfradd isaf o farwolaethau busnes ymhlith gwledydd y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn 2018**, gan awgrymu o bosibl bod busnesau Cymru yn fwy cydnerth. Cofnododd Cymru'r gyfradd oroesi 1-blwyddyn uchaf ymhlith gweinyddiaethau datganoledig y DU ar gyfer BBaCh a ddechreuodd yn 2015 a'r gyfradd oroesi 3 -blynedd ail uchaf.

Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach (FfBB) yn adrodd bod 24% o BBaCh yng Nghymru wedi gostwng nifer eu staff yn 2019Ch4, yr uchaf ymysg rhanbarthau'r DU. Ar ben hynny, Cymru oedd â'r gyfran uchaf o BBaCh, ymhlith rhanbarthau'r DU, a oedd yn 2019Ch4, yn disgwyl lleihau gweithgaredd yn y 12 mis nesaf (22.5% o fusnesau bach Cymru).

Datgelodd Adroddiad BVCA ar Weithgaredd Buddsoddi 2018 gynnydd blynyddol yn nifer y bargeinion ecwiti preifat a buddsoddiadau cyfalaf menter yng Nghymru. Mae'r swm a fuddsoddwyd yng Nghymru wedi treblu o'i gymharu â 2017, a bu cynnydd sylweddol ym maint cyfartaledd bargeinion. Gwnaed y rhan fwyaf o'r buddsoddiadau yn y diwydiant TGCh a'r sectorau Biotech a Gofal Iechyd.

Yn y cyfnod rhwng Rhagfyr 2019 a Chwefror 2020, dim ond newidiadau bach oedd yng nghyfranddaliadau BBaCh Cymru mewn gwahanol grwpiau risg credyd. Roedd hyn yn dilyn dirywiad yng nghyfran y BBaCh yr amcangyfrifir eu bod mewn Perygl Uchel ac yn y categori Rhybudd a chynnydd yn y categorïau BBaCh Arferol, Sefydlog a Diogel yn y cyfnod hyd at fis Rhagfyr 2019. **Ar sail dau fesuriad yn olynol, mae statws credyd wedi dangos peth gwelliant yn sector BBaCh Cymru.**

Banc Datblygu Cymru

Yn nhrydydd chwarter blwyddyn ariannol 2019/20, derbyniodd 203 o gwmnïau fuddsoddiadau, i fyny o 162 yn 2019/20 Ch1 a 178 yn 2019/20 Ch2. Yr oedd cyfanswm gwerth buddsoddiadau newydd a wnaed gan Fanc Datblygu Cymru yn ystod trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2019/20 bron yn £27 miliwn, i fyny o £22 miliwn yn yr ail chwarter. **Fe wnaeth y 203 o fuddsoddiadau yn 2019/20 Ch3 greu neu ddiogelu bron i 660 o swyddi, i lawr o'r 820 o swyddi yn yr ail chwarter.**

Canolbwyntiodd yr ACh3 hwn sylw ar weithgaredd eiddo Banc Datblygu gyda hwn yn faes twf busnes pwysig i'r Banc Datblygu. Rhwng 2014/15 a 2018/19, gwnaed 503 o fuddsoddiadau o Gronfa Eiddo Cymru, Cronfa Twf Cyfalaf Cymru, a Chronfa Safleoedd Segur, gwerth cyfanswm o £67 miliwn. Fe wnaeth y buddsoddiadau hyn greu neu adnewyddu 8,794.7 m² o adeiladau a datblygu 287,869 m² o dir. Adeiladwyd cyfanswm o 735 o unedau tai yn ystod y cyfnod, gan greu neu ddiogelu amcangyfrif o 466 o swyddi. Cyn 2018, ni chafwyd adroddiadau ffurfiol ar fetrigau eiddo gyda pharhad ar draws y cronfeydd eiddo ac felly mae'r ffigurau a gyflwynir yma ar gyfer y cyfnod 2014 i 2017 yn is na'r gwir a gyflawnwyd.

Cwblhawyd ACh3 ddiwedd mis Mawrth 2020. Trwy fis Mawrth 2020 roedd effeithiau economaidd y Coronafirws yn dechrau cael eu teimlo yn economi Cymru a'r DU. Nid oes unrhyw un ar y pwynt hwn yn gallu rhagweld effeithiau economaidd y coronafirws hwn ar y galw a'r cyflenwad o gyllid BBaCh yng Nghymru, ac yn wir ar dwf economaidd Cymru. Yn natganiad y Gyllideb (a ddiwygiwyd ar 12 Mawrth 2020) cyhoeddwyd cynllun gwerth £12 biliwn i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus, unigolion a busnesau, a chytunodd Llywodraeth y DU hefyd i ddarparu cefnogaeth i gwmnïau a fyddai â chostau uwch neu broblemau llif arian a achosir gan y coronafirws. Roedd cyhoeddiadau newydd yn cynnwys rhyddhad ar Ardrethi Busnes, Cynllun Benthycia Ymyrryd ar draws Busnes Coronafirws i gefnogi benthycia ar gyfer BBaCh, a chynllun grant o £2.2 biliwn ar gyfer cwmnïau bach. Ac eto profodd y cynnydd hwn mewn gwariant cyhoeddus i fod yn gambit agoriadol bach mewn argyfwng a oedd yn symud yn gyflym. Cyhoeddodd y Canghellor ar yr 17eg o Fawrth gyfanswm o £330 biliwn o warantau, a gwyliau ardrethi i fusnesau a grantiau arian parod ar gyfer busnesau bach i'w cynorthwyo trwy'r argyfwng.

Daw'r broblem bandemig hon ar ben problemau economaidd a achoswyd gan lifogydd eang ar ôl Stormydd Ciara a Dennis. Daw'r ACh3 2019/20 hwn hefyd yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE a dechrau'r cyfnod trosglwyddo. Cyn yr achosion Coronafirws, roedd economi'r DU eisoes yn dangos tystiolaeth o arafu (arhosodd CMC y DU yn 2019Ch4 yn ddigyfnawid o'i gymharu â'r chwarter blaenorol), gyda phryderon yn dod i'r amlwg yn y sector gweithgynhyrchu, yn bennaf oherwydd dirywiad mewn cynhyrchu ceir. Mewn llawer o'r hyn sy'n dilyn yn yr ACh hwn, dim ond ar yr amodau sy'n datblygu ym mis Mawrth 2020 y gellir darparu sylwebaeth, ni wneir unrhyw ymdrech ac eithrio yn y termau mwyaf cryno, i ragweld, ar hyn o bryd, effeithiau'r pandemig ar y rhanbarth ac ar economi'r DU. **Fodd bynnag, mae'r ACh3 hwn yn bwysig fel meincnod o amodau economaidd a BBaCh cyn i effeithiau'r Coronafirws esblygu yng Ngwanwyn 2020.**

Mae adrannau 2-3 o'r adroddiad hwn yn darparu data a sylwebaeth ar gyd-destun macro-economaidd y DU a Chymru (fel y'i deellir ar ddechrau mis Mawrth 2020) y mae busnesau bach a chanolig Cymru yn gweithredu ynddo, ynghyd â dadansoddiad o'r ffactorau sy'n ymwneud â'r galw am, y cyflenwad o a chost cyllid busnesau bach a chanolig. Amcan yr adrannau hyn yw deall:

- Y ffactorau macro-economaidd sy'n llunio'r galw am gyllid BBaCh yng Nghymru.
- Tueddiadau yn nhwf BBaCh, busnesau newydd a rhagolygon goroesi busnes yng Nghymru.
- Y cyflenwad o gyllid i BBaCh yng Nghymru.
- Y symiau a'r mathau o fenthyca / buddsoddi mewn BBaCh yng Nghymru.

Mae Adran 4 yn crynhoi gweithgareddau Banc Datblygu Cymru yng nghyd-destun ffactorau sy'n effeithio ar y galw am, a'r cyflenwad o, gyllid i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. I grynhoi, bydd yr ACh yn nodi:

- Y defnydd o gronfeydd Banc Datblygu o ran ariannu busnesau bach a chanolig yng Nghymru, a pha fath o fentrau a diwydiannau sy'n cael eu cefnogi.
- Dosbarthiad daearyddol buddsoddiad BBaCh o amgylch Cymru.

Mae'r ACh hwn hefyd yn darparu dadansoddiad cryno o fuddsoddiadau eiddo'r Banc Datblygu. Bydd Adroddiadau Chwarterol yn y dyfodol yn canolbwyntio ar sectorau eraill o weithgaredd buddsoddi'r Banc Datblygu. Mae'r rhan olaf yn dod i gasgliadau o'r dadansoddiad cyffredinol. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd (a adroddir yn gyffredinol mewn blynyddoedd calendr) ynghyd â dadansoddiad arbennig o ddata a ddarperir gan Fanc Datblygu Cymru (a adroddir yn bennaf mewn blynyddoedd ariannol). Oherwydd gwahaniaethau mewn cyfnodau adrodd, bydd rhywfaint o gam gymhariaeth amserol rhwng data yn yr adroddiad hwn.

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, daw gweithredu'r cyfnod trosglwyddo ochr yn ochr â'r trafodaethau ar gyfer y berthynas fasnach yn y dyfodol. Mae'r berthynas fasnach newydd yn bwysig i lawer o sectorau allforio mwyaf Cymru, ond hefyd i gwmnïau llai sy'n gwasanaethu'r sector allforio yng Nghymru a gweddill y DU.

Mae llawer o BBaCh gweithgynhyrchu yng Nghymru yn gymharol ddibynnol ar

farchnadoedd yr UE. Yr Undeb Ewropeaidd yw'r cwsmer mwyaf o bell ffordd ar gyfer allforion nwyddau o Gymru, gan gyfrif am 60% o gyfanswm marchnad allforion nwyddau Cymru. Bydd y newid i'r berthynas newydd hon yn effeithio ar yr amodau economaidd a masnach sy'n effeithio ar dwf busnes, yn ogystal â'r galw am, a chyflenwad, gwahanol fathau o gyllid.

Mae twf economaidd y DU yn parhau i fod yn wastad yn ystod pedwerydd chwarter 2019.

Mae'r data diweddaraf yn dangos bod CDG y DU wedi aros yn ddigynffwrdd yn y chwarter hyd at 2019Ch4¹. Mae hyn yn dilyn cynnydd diwygiedig o 0.5% yn 2019Ch3. Fodd bynnag, roedd CDG y DU wedi cynyddu 1.1% o'i gymharu â'r un chwarter flwyddyn yn ôl (2018Ch4). Roedd twf CDG yn Ch3 2019 yn y DU o ganlyniad i godiadau bach yn allbwn y sector adeiladu a gwasanaethau'r DU, a barhaodd i Ch4 2019. Cofnododd y sector adeiladu gynnydd o 0.5% bob chwarter, ond gyda gwasanaethau wedi cynyddu ddim ond 0.1%, sef y gyfradd twf isaf ers canol 2016. Mae'r newid hwn yn dilyn disgwyliadau o arolygon busnes lle gostyngodd hyder ynghylch twf sector gwasanaeth y DU ym mis Awst 2019 am y trydydd mis yn olynol i'r lefel isaf am fwy na thair blynedd².

Gostyngodd CDG sector cynhyrchu'r DU 0.8% yn chwarter olaf 2019. Roedd y cwmp hwn yn rhannol o ganlyniad i ddirywiad mewn cynhyrchu ceir. Mae gweithgynhyrchu ceir y DU wedi dirywio o fis Mehefin 2018 i fis Tachwedd 2019, ar ôl gostwng 14.5% yn 11 mis cyntaf 2019.

Mae'r amcangyfrifon³ CDG chwarterol (arbrofol) diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Cymru (ar gyfer 2019Ch2) yn datgelu cynnydd o 0.4%, yn dilyn dirywiad diwygiedig o 0.6% yn y chwarter hyd at 2019Ch1⁴. O'i gymharu â 2018Ch2, tyfodd CDG 0.7%. Gyda hanner y sectorau yn cofnodi twf chwarterol cadarnhaol, roedd y cynnydd mewn CDG Cymru yn cael ei yrru'n bennaf gan amaethyddiaeth (3.8%) a gwasanaethau (2%), gydag adeiladu a chynhyrchu yn dirywio (-6.7% a -3% yn y drefn honno). Gweithgynhyrchu oedd yn bennaf gyfrifol am y dirywiad ym maes cynhyrchu, tra bod y cynnydd mewn gwasanaethau yn deillio'n bennaf o'r sector trafndiaeth a storio.

Mae amcangyfrifon CDG rhanbarthol diweddaraf gan y SYG⁵ yn dangos bod Cymru yn dringo oddi ar y safle isaf yn 2018 ymhlith rhanbarthau DU NUTS 1, gan sicrhau twf blynyddol o 0.9% o CDG real y pen i £23,866 yn 2018, ychydig yn uwch na'r £23,569 CDG y pen yn y Gogledd Ddwyrain. Ar y lefel isranbarthol, mae tri o'r deg rhanbarth isaf yn DU NUTS 3

¹ Gweler <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpfirstquarterlyestimateuk/octobertodecember2019>

² Gweler <https://www.markiteconomics.com/Public/Home/PressRelease/bec4ba3ae8ac45008c46a8bc6b71a07d>

³ Gweler <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/regionaleconomicactivitybygrossdomesticproductuk/1998to2018?hootPostID=1fcc521932edbf910ec20f7f17219fe>

⁴ Gweler <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpwales/apriltojune2019>

sy'n seiliedig ar CDG y pen yng Nghymru (Ynys Môn, Cymoedd Gwent, a'r Cymoedd Canolog). Ymhlith y pedair prifddinas, cyflawnodd

Caerdydd y cynnydd blynyddol trydydd uchaf mewn CDG y pen ar 1.4% rhwng 2017 a 2018, yn dilyn Llundain (2%) a Chaeredin (1.5%).

Cwmp ym muddsodiad busnes yn y DU.

Gan gadarnhau'r rhagfynegiadau a wnaed gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain ar gyfer 2019, gostyngodd buddsodiad busnes y DU 1% yn 2019Ch4, yn dilyn dim newid yn 2019Ch3 a dirywiad o 0.4% yn 2019Ch2. Yn ôl yr *'Agents' summary of business conditions*⁶, a gyhoeddwyd gan Fanc Lloegr, roedd bwriadau buddsoddi busnesau yn parhau i fod yn isel eu hysbryd yn chwarter olaf 2019 oherwydd yr ansicrwydd gwleidyddol a chyflymder arafach twf byd-eang. Unwaith eto, roedd tystiolaeth gref yma o arafu cyn yr haint Coronafirws.

Penderfynodd Banc Lloegr gadw cyfraddau llog yn ddigyfnewid ym mis Chwefror 2020 (ar 0.75%) ond torrodd hyn ym mis Mawrth i 0.25% fel ymateb brys i'r achosion Coronafirws. Mae'r ffigurau diweddaraf am chwyddiant yn nodi cynnydd o 1.3% ym mis Rhagfyr 2019 i 1.8% ym mis Ionawr 2020, yr uchaf dros y chwe mis diwethaf. Mae Banc Lloegr hefyd wedi torri ei ragolygon ar gyfer twf CDG y DU ar gyfer 2020: yn gyntaf, ym mis Tachwedd o 1.3% i 1.2%, ac yn ail, ym mis Chwefror, o 1.2% i 0.8%. Fodd bynnag, roedd y rhagolygon hyn yn rhagflaenu Coronafirws i raddau helaeth. Mae rhagolygon twf economaidd bellach yn wynebu ansicrwydd ychwanegol gan na ellir sefydlu graddfa a hyd effeithiau economaidd y Coronafirws eto. Fodd bynnag, disgwylir nawr y bydd economi'r DU (a byd-eang) yn troi'n ddirwasgiad yn ystod 2020.

Cryfhaodd y farchnad lafur yng Nghymru yn chwarter olaf 2019. Gostyngodd cyfradd diweithdra Cymru 0.9%, o'i chymharu â 2019Ch3, i 2.9% yn 2019Ch4, sef y drydedd gyfradd isaf ymhlith 12 rhanbarth y DU⁷. Cyfradd ddiweithdra'r DU oedd 3.8% ar gyfer y cyfnod Hydref-Rhagfyr 2019, gan ostwng ychydig o'r ffigur 3.9% ar gyfer 2019Ch3. Mae system fewnfudo newydd y DU yn y cyfnod ar ôl Brexit yn ceisio 'lleihau lefelau cyffredinol yr ymfudo', blaenoriaethu 'y sgiliau sydd gan berson i'w cynnig', er mwyn 'creu economi cynhyrchiant uchel â chyflog uchel, sgiliau uchel.' Disgwylir i'r pwyslais hwn effeithio ar rai sectorau o farchnadoedd llafur y DU a Chymru a rhagolygon busnes cysylltiedig.

Cyflogau'r DU ar frig y lefelau cyn argyfwng ariannol byd-eang 2007/8

Yn ystod chwarter olaf 2019 gwelwyd lefelau cyflogau cyfartalog y DU ar y brig cyn argyfwng ariannol byd-eang 2007/8. Roedd enillion wythnosol rheolaidd go iawn yn uwch na'r lefel uchaf cyn y dirywiad economaidd ym mis Mawrth 2008 (£474).

⁵ Gweler <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/regionaleconomicactivitybygrossdomesticproductuk/1998to2018?hootPostID=1fcc521932edbf910ec20f7f17219fe>

⁶ Gweler <https://www.bankofengland.co.uk/agents-summary/2019/2019-q4>

⁷ Gweler <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/regionallabourmarket/february2020>

Dirywiodd hyder cwmnïau bach yng Nghymru yn 2019Ch4, gyda busnesau bach a chanolig Cymru ymhlith y gyfran uchaf o fusnesau yn gostwng lefelau staff.

Arhosodd *Mynegai Busnesau Bach y DU* yn negyddol am y chweched chwarter yn olynol. Mae hyn yn ddigynsail yn hanes y *Mynegai Busnesau Bach*⁸. Roedd *Mynegai Busnesau Bach y DU* yn -8.1 yn 2019Ch3 ac fe blymiodd i -21.6 yn 2019Ch4⁹. Yng nghyd-destun ehangach ansicrwydd economaidd, roedd y mynegai hyder ar y pwynt isaf ers y Wasgfa Gredyd ddiwethaf. Roedd balans net busnesau bach a chanolig y DU a nododd ddirywiad mewn elw yn 42% o'i gymharu â 27% yn nodi cynnydd, gyda phroffidioldeb ar ei lefel isaf mewn pum mlynedd.

Roedd Cymru wedi perfformio'n llawer gwell o'r blaen, fel y rhanbarth allanol yn nhermau *Mynegai Hyder Busnesau Bach a Chanolig y DU* rhwng 2018Ch1 a 2019Ch2. Fodd bynnag, syrthiodd hyder BBaCh Cymru

i diriogaeth negyddol yn nhrydydd chwarter 2019 (-13), gyda'r dirywiad mwyaf cyflym yn hyder holl ranbarthau'r DU rhwng 2019Ch2 a 2019Ch3. Adroddwyd cwmpellach i -27 yn 2019Ch4. Dyma'r ffigur ail isaf ar draws rhanbarthau'r DU (ochr yn ochr â'r Alban), gyda Llundain ar y gwaelod (-36). Mae'r arolwg hwn hefyd yn nodi bod 24% o fusnesau bach a chanolig Cymru wedi lleihau nifer eu staff yn 2019Ch4, yr uchaf ymhlith rhanbarthau'r DU. Ar ben hynny, Cymru oedd â'r gyfran uchaf o fusnesau bach a chanolig, ymhlith rhanbarthau'r DU, a ddisgwyliid yn 2019Ch4 i leihau gweithgaredd yn ôl yn y 12 mis nesaf (22.5% o fusnesau bach Cymru). Yn amlwg, bydd y sefyllfa hon wedi gwaethygu'n sylweddol gan agosáu at ddiwedd chwarter cyntaf 2020 oherwydd yr achosion Coronafirws.

⁸ "Mynegai wedi'i bwysoli o'r Mynegai Busnesau Bach o'r ymatebion i'r cwestiwn: 'O ystyried perfformiad cyffredinol eich busnes, ac anwybyddu unrhyw amrywiadau tymhorol arferol yr adeg hon o'r flwyddyn, sut ydych chi'n gweld rhagolygon busnes dros y tri mis nesaf, o'i gymharu â'r tri mis blaenorol?' Rhoddir y pwysidiadau canlynol i gyfran y cwmnïau sy'n adrodd 'llawer gwell': +2, ychydig yn well +1, tua'r un fath 0, ychydig yn waeth -1 ac yn waeth o lawer -2; mae'r Mynegai Busnesau Bach yn deillio o swm y ffactorau hyn" (FfBB, 2020).


⁹ FfBB (2020). Mynegai FfBB mynegai busnesau bach, Chwarter 4 2019. Ar gael yn: <https://www.fsb.org.uk/static/a46bb570-8767-48ca-83c743cf52cb7f07/FSB-SBI-Q4-2019.pdf>

Yn seiliedig ar ddata dros dro sy'n deillio o Stats Cymru¹⁰, cyflogodd 95.6% o BBaCh yng Nghymru 0 i 9 o bobl yn 2019, mae 3.6% yn gwmnïau bach, ac mae gan 0.8% 50 i 249 o weithwyr (Ffigur 1). Mae cwmnïau meicro yn cyfrannu 56% o gyflogaeth busnesau bach a chanolig yng Nghymru, gyda chwmmnïau

bach yn cyfrif am 24% a maint canolig am 20%. Mae'r wybodaeth am drosiant BBaCh yn llai eglur a dylid ei thrin yn fwy gofalus. Fel y nodwyd yn ACh2, mae'n debygol y bydd data dros dro ar gyfer trosiant microfusnesau yn cael ei adolygu yn y blynyddoedd i ddod.

Ffigur 1.

BBaCh yng Nghymru yn ôl Band Maint (% , 2019)



Ffynhonnell: Stats Cymru, strwythur busnes yng Nghymru yn ôl maint band a mesur (data dros dro)

¹⁰ Cyhoeddir data Llywodraeth Cymru trwy blatfform StatsCymru. Mae'r ddogfen sy'n Ffynhonnell i hynny i'w gweld yn fan hyn <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/size-analysis-active-businesses-2019-503.pdf>


Mae De Ddwyrain Cymru yn dangos y crynodiad uchaf o fusnesau bach a chanolig yn yr holl fandiau maint yn 2019.

Nid yw busnesau BBaCh wedi'u dosbarthu'n gyfartal ledled Cymru. De Ddwyrain Cymru oedd â'r crynodiad uchaf o BBaCh yn yr holl fandiau maint, gyda chrynodiad uwch o gwmnïau canolig (Ffigur 2). Roedd mwy na 1,270 o'r 2,520 o gwmnïau o Gymru o faint canolig wedi'u lleoli yn Ne Ddwyrain Cymru

(dros hanner yr holl gwmnïau maint canolig). Roedd tua chwarter y cwmnïau meicro a bach Cymru wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru ac roedd traean o fusnesau meicro a bach Cymru yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru. Mae'r darlun o ddaearyddiaeth BBaCh Cymru yn 2019 bron yn ddigyfnewid o'i gymharu â'r un yn 2018.

Ffigur 2.

Cyfrif BBaCh yng Nghymru, % yn ôl rhanbarth a band maint (2019)



Ffynhonnell: Stats Cymru, Mentrau yn ôl band maint, ardal a blwyddyn (data dros dro)

Y sector masnach gyfanwerthu / manwerthu oedd â'r gyflogaeth BBaCh uchaf yn 2019.


Mae BBaCh Cymru hefyd wedi'u dosbarthu'n anwastad ar draws sectorau o'r economi. Cyfanwerthu a manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd, a chyfathrebu yw'r sector BBaCh a gyflogodd y mwyafrif o bobl yng Nghymru yn 2019 (Ffigur 3). Y sector cwmnïau bach eang hwn sydd eisoes yn profi'r effeithiau mwyaf andwyol yn sgil yr achosion Coronafirws. Roedd tua 34% o weithwyr y sector BBaCh yn y diwydiant hwn (400,000 o weithwyr), ac yna gwasanaethau ariannol a busnes (227,000), iechyd ac addysg y sector preifat (172,000), a chynhyrchu (167,000). Gwasanaethau cyfanwerthu / manwerthu, ariannol a busnes ac adeiladu oedd y diwydiannau â'r cyfrif menter uchaf yn 2019 (61,000, 57,000 a 48,000), gyda'r sector cynhyrchiad â'r niferoedd isaf (16,000).

Y sector cynhyrchu oedd â'r cyfraddau cyflogaeth uchaf fesul BBaCh yng Nghymru

Y sector cynhyrchu oedd â'r cyfrif mentrau isaf yn 2019. Fodd bynnag, y sector hwn oedd â'r maint cyflogaeth mwyaf fesul cwmni BBaCh yng Nghymru, gyda 10 o weithwyr i bob cwmni, ac yna iechyd cyfanwerthol / manwerthu (6.5 o weithwyr) ac iechyd ac addysg y sector preifat (5.5).

Ffigur 3.

Nifer y Gweithwyr yn ôl Sector (2019)



Ffynhonnell: Stats Cymru, Mentrau yn ôl diwydiant (SIC2007), band maint ac ardal (data dros dro)


Mae twf allbwn yn y sector adeiladu a chynhyrchu yn gwella, gyda thwf allbwn yn arafu yn y gwasanaethau marchnad.

Mae'r tueddiadau mewn cyfrif BBaCh, cyflogaeth a throsiant yn cysylltu â newidiadau ehangach mewn dangosyddion allbwn tymor byr yn economi Cymru. Mae Ffigur 4 yn dangos y symudiad chwarterol ym mynegeion Cymru o wasanaethau cynhyrchu, adeiladu a marchnad, o 2012Ch3 i 2019Ch3. Cynyddodd mynegai allbwn y sector adeiladu, gan wella ar ôl dau chwarter yn olynol o dwf negyddol. Yn 2019Ch3, cafodd ei osod ymhell uwchlaw (o 23%) ei werth mynegai blwyddyn sylfaen yn 2016. Effeithiwyd ar y cynnydd hwn gan ehangiad 2019Ch3 yng Nghynnyrch Domestig Gros adeiladu'r DU, fel yr adroddwyd yn ACh2 DEC.

Mae Ffigur 4 yn dangos bod y cynnydd blaenorol ym mynegai gwasanaethau'r farchnad yng Nghymru wedi stopio, ar ôl pum chwarter yn olynol o dwf cadarnhaol. Mae'r mynegai cynhyrchu ar gyfer Cymru wedi dangos rhywfaint o adferiad yn 2019Ch4. Ar hyn o bryd mae'r mynegai cynhyrchu yn agos at ei lefel mynegai blwyddyn sylfaen 2016. O ystyried dirywiad 2019Ch4 0.8% mewn CDG sector cynhyrchu'r DU, mae rhagolygon allbwn y sector hwn yng Nghymru yn ansicr.

Ffigur 4.

Mynegeion allbwn Cymru: tueddiadau 2012Ch3 - 2019Ch3 (2016 = 100)



Ffynhonnell: Stats Cymru, Mynegeion Cynhyrchu ac Adeiladu Cymru (2016 = 100) yn ôl adran a blwyddyn a Mynegai Gwasanaethau'r Farchnad (2016 = 100) yn ôl blwyddyn ac ardal

Cymru oedd â'r gyfradd marwolaeth busnes ail isaf yn 2018 a'r gyfradd orosi blwyddyn uchaf ar gyfer cwmnïau a sefydlwyd yn 2015 ledled y DU.


Adroddodd ACh2 DEC mai Cymru oedd â'r gyfradd genedigaethau busnes uchaf ledled gwledydd y DU am ddwy flynedd yn olynol (2017 a 2018). Mae archwilio cyfraddau marwolaeth a goroesi busnes yn rhoi mewnolwg gwerthfawr i gydnherthedd yr economi ranbarthol. Y gyfradd marwolaeth busnes yng Nghymru oedd yr ail isaf ymhlith gweinyddiaethau a gwledydd datganoledig y DU yn 2018, sef 10.4%, yn uwch na Gogledd Iwerddon (7.9%), ac yn is na Lloegr (11.5%) a'r Alban (11.8%), gyda chyfartaledd y DU o 11.4%. Gallai hyn fod yn arwydd o ddeinameg economaidd wannach i Gymru, gan fod yr economïau mwyaf deinamig yn cofnodi cyfraddau genedigaeth a marwolaeth uchel. Fodd bynnag, gallai hyn hefyd awgrymu bod busnesau Cymru

yn fwy cydnerth gyda chyfraddau goroesi uwch. Disgwylir y bydd yna sioc enfawr o ran cyfraddau marwolaeth busnes yng Nghymru o ganlyniad i'r achosion o Coronafirws, ac mae hyn er gwaethaf ymdrechion y Trysorlys i atal effeithiau'r argyfyngau.

Mae Ffigur 5 yn dangos bod Cymru wedi cofnodi cyfradd goroesi blwyddyn ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU, gyda 90.8% o gwmnïau newydd-anedig yn 2015 yn dal i weithredu yn 2016, gyda chyfartaledd y DU yn 89.7%. Cymru oedd â'r gyfradd orosi 2 flynedd ail isaf ar 71.1%, yn uwch na Gogledd Iwerddon (69.8%) ac yn is na'r Alban (71.3%) a Lloegr (71.4%). Roedd gan Gymru hefyd gyfradd goroesi tair blynedd ychydig yn uwch na'r DU ar gyfer cwmnïau a sefydlwyd yn 2015.

Ffigur 5.

Cyfradd Goroesi Un i Dair Blwyddyn % y Mentrau a Anwyd yn 2015



Ffynhonnell: SYG, Demograffeg Busnes

Tanlinellir yn fan hyn bod y sylwebaeth isod yn ymwneud â'r sefyllfa ar ddechrau mis Mawrth 2020. Mae amodau benthyciadau a chyllid ar gyfer BBaCh Cymru yn esblygu'n gyflym o ganlyniad i'r ymateb i'r Coronafirws a nodwyd yn gynharach yn yr ACh3 hwn.


Newidiadau bach mewn cyfraddau llog ar fenthyciadau i BBaCh y DU, a chyfraddau llwyddiant ceisiadau am fenthyciadau.

Mae'r gyfradd llog ar gyfartaledd ar gyfer benthyciadau i fusnesau bach wedi gostwng o 3.34% ym mis Hydref 2019 i 3.21% ym mis Tachwedd, cyn cynyddu i 3.31% ym mis Rhagfyr

(Ffigur 6). Mae Ffigur 6 hefyd yn datgelu newid blynyddol bach yn y ddarpariaeth benthyciadau, a ostyngodd o 1.1% ym mis Hydref i 0.9% ym mis Rhagfyr 2019.

Ffigur 6.

Cyfradd llog ar fenthyciadau i BBaCh y DU, a chyfraddau twf benthyciadau




Ffynhonnell: Banc Lloegr

Mae Arolwg Amodau Credyd Banc Lloegr 2019Ch4 yn dangos bod y cyflenwad credyd i BBaCh y DU wedi aros yn ddigyfnewid yn 2019Ch4 (Ffigur 7). Mae'r data yn y Ffigur hwn yn deillio o arolwg chwarterol Banc Lloegr gyda chanlyniadau yn seiliedig ar sampl o

fusnesau bach a chanolig yn y DU. Mae Ffigur 7 hefyd yn dangos cynnydd yng nghyfradd llwyddiant ceisiadau am fenthyciad o -15.2% yn 2019Ch3 i 0.3% yn 2019Ch4, ar ôl pum chwarter yn olynol o ddirwiad neu farweidd-dra.

Ffigur 7.

Cyflenwad credyd a chyfradd llwyddiant BBaCh,% y BBaCh a arolygwyd, 2016Ch4 i 2019Ch4



Ffynhonnell: Banc Lloegr, Arolwg Amodau Credyd – 2019 Ch3


Cynnydd ym maint bargeinion cyfartalog ecwiti preifat a buddsoddiad cyfalaf menter yng Nghymru.

Fel y datgelwyd yn adroddiad ACh2 DEC, bu cynnydd blynyddol o 42% yn nifer y cwmnïau yng Nghymru a oedd wedi derbyn buddsoddiad ecwiti preifat a chyfalaf menter (74 cwmni yn 2018, gan gynyddu o 52 yn 2017).

Nodwedd o'r buddsoddiadau newydd hyn yw'r cynnydd sylweddol ym maint y fargen ar gyfartaledd, a gynyddodd o oddeutu £1m yn y cyfnod 2012-2017 i £3.2m yn 2018.

Ffigur 8.

Nifer y Cwmnïau yng Nghymru sy'n Derbynn Buddsoddiad gan aelodau BVCA (£m)




Ffynhonnell: Cymdeithas Cyfalaf Ecwiti Preifat a Menter Prydain, Adroddiad BVCA ar Weithgaredd Buddsoddi (2018)

Dosbarthwyd buddsoddiad ecwiti a chyfalaf menter yng Nghymru yn anwastad ar draws y gwahanol sectorau o weithgaredd economaidd. Mae Ffigur 9 yn dangos bod y rhan fwyaf o'r buddsoddiadau wedi'u gwneud yn y diwydiant TGCh (41), ac yna Biotech a gofal iechyd (18).

Fodd bynnag, mae'r swm buddsoddi yn y sectorau hyn yn gymharol isel (£16m yn y sector TGCh ac £8m mewn Biotech a gofal iechyd). Yn cyferbynnu hynny, dim ond dau fuddsoddiad oedd yn y sector cynhyrchion a gwasanaethau busnes a ddenodd oddeutu £70m o gyllid i gyd.

Ffigur 9.

Buddsoddiad BVCA yng Nghymru yn ôl Sector dethol (2018)



Ffynhonnell: Cymdeithas Cyfalaf Ecwiti a Menter Preifat Prydain, Adroddiad BVCA ar Weithgaredd Buddsoddi (2018) (2018)

Yn cadarnhau tystiolaeth o waith blaenorol DEC ar y gweithgaredd deillio isel yng Nghymru¹¹, datgelodd adroddiad diweddar gan Beauhurst¹² mai Cymru oedd â'r buddsoddiad rhanbarthol

isaf yn y DU o ran cwmnïau deillio, sef £1.3m yn 2019. Dwyrain Lloegr oedd yn y safle cyntaf ymhlith rhanbarthau'r DU gyda £514m o fuddsoddiad mewn cwmnïau deillio.

¹¹ Gweler https://developmentbank.wales/sites/default/files/2019-04/Equity%20Clusters%20Report_final.pdf

¹² Gweler <https://about.beauhurst.com/research/Spinouts-investment-report/>


Newidiadau bach yng nghyfranddaliadau BBaCh Cymru yn y grwpiau risg credyd.

Mae Ffigur 10 yn dangos newidiadau bach yn statws credyd BBaCh Cymru yn y cyfnod diweddaraf (Chwefror 2020). Cofnodwyd dirywiad yng nghyfran y BBaCh yr amcangyfrifir eu bod mewn Perygl Uchel ac yn y categori Rhybudd a chynnydd yn y categorïau BBaCh

Cyffredin, Cyson a Diogel ym mis Rhagfyr 2019. Er bod angen bod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau cadarn o arsylwadau dros gyfnod amser byr, cynhaliwyd y darlun statws risg credyd gwell ar gyfer BBaCh yng Nghymru i mewn i fisoedd cynnar 2020.

Ffigur 10.

Cyfran y BBaCh yn ôl Risg Credyd yng Nghymru (%), Mehefin 2018 - Chwefror 2020




Ffynhonnell: FAME, Bureau van Dijk

Mae Ffigur 11 yn dangos sut mae cyfrannau BBaCh yn y gwahanol categorïau risg yn amrywio yn ôl sector. Mae'r sectorau sydd â'r statws credyd gorau yn cynnwys cemegolion, metelau, a pheiriannau, bwyd, tecstilau, a chynhyrchion pren. Mae'r sectorau sydd â'r

statws credyd isaf yn cynnwys gwestai a bwytai, trafndiaeth a thelathrebu, ac adeiladu. Tanlinellir bod sectorau fel gwestai, arlwygo a thrafnidiaeth ymhlith y sectorau hynny a fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan yr achosion o Coronafirws.

Ffigur 11.

Cyfran y BBaCh yn ôl Risg Credyd a'r Sector yng Nghymru (% , Chwefror 2020)



Ffynhonnell: FAME, Bureau van Dijk

Mae'r adran hon yn crynhoi buddsoddiadau Banc Datblygu Cymru yn 2019/20 Ch3. Mae'r holl ddata yn yr adran hon wedi deillio o gronfa ddata Banc Datblygu Cymru.


203 buddsoddiad yn 2019/20 Ch3.

Gwnaeth y Banc Datblygu 203 o fuddsoddiadau newydd yn 2019/20 Ch3, i fyny o 162 yn 2019/20 Ch1 a 178 yn 2019/20 Ch2 (Ffigur 12). Cyfanswm gwerth y buddsoddiad yn Ch3 oedd £26.8m, i fyny o £21.1m yn 2019/20 Ch1 a £21.6m yn 2019/20 Ch2. Roedd y swm

buddsoddi cyfartalog yn debyg i'r swm yn y ddau chwarter blaenorol yn 2019/20 (h.y. oddeutu £0.13m). Fe wnaeth yr 203 o fuddsoddiadau yn 2019/20 Ch3 greu neu ddiogelu 658 o swyddi (3.2 swydd fesul buddsoddiad).

Ffigur 12.

Nifer y Buddsoddiadau a'r Swyddi a grëwyd ac a Ddiogelwyd, 2018/19 Ch4 - 2019/20 Ch3




Twf cryf mewn buddsoddiadau benthyciadau newydd.

Cyfanswm buddsoddiad benthyciadau newydd oedd £23.1m, i fyny o £20m yn 2019/20 Ch2, gan gynyddu am yr ail chwarter yn olynol (Ffigur 13). Adenillwyd buddsoddiad ecwiti, ar ôl y

gostyngiad o 74% rhwng 2019/20 Ch1 a 2019/20 Ch2 (gan ostwng o £6.9m i £1.8m). Cynyddodd buddsoddiad ecwiti i £3.6m yn 2019/20 Ch3.

Ffigur 13.

Buddsoddiad Newydd yn ôl Math o Fuddsoddiad (£ miliwn), 2018/19 Ch4 - 2019/20 Ch3



Dirywiodd buddsoddiad newydd yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru ymhellach.

Yn y ddau chwarter diwethaf, gwnaed mwyafrif buddsoddiadau'r Banc Datblygu mewn cwmnïau sydd wedi'u lleoli yn Ne Ddwyrain Cymru. Cyfanswm y buddsoddiadau yn Ne Ddwyrain Cymru oedd £9m yn 2019/20 Ch2 a £10.8m

yn 2019/20 Ch3. Gostyngodd buddsoddiadau newydd yng Nghanolbarth a De Orllewin Cymru i £6.1m yn 2019/20 Ch3, gyda buddsoddiad Gogledd Cymru yn cynyddu i £9.8m.


Y sector adeiladu sydd â'r gyfran fwyaf o fuddsoddiad newydd.

Rhwng 2018/19 Ch4 a 2019/20 Ch3 derbyniodd y sector adeiladu'r gyfran fwyaf o fuddsoddiad newydd ar gyfer

pob chwarter, ac yna gweithgareddau proffesiynol a gwyddonol, gweithgareddau TGCh, a gweithgynhyrchu (Ffigur 14).

Ffigur 14.

Buddsoddiad newydd yn ôl sector (£ miliwn), 2018/19 Ch4 - 2019/20 Ch3



Cronfa Busnes Cymru yn gwneud y rhan fwyaf o'r buddsoddiad yn 2019/20 Ch3.

O ran symiau a fuddsoddwyd yn gronnol ac a oedd ar gael gan y Gronfa hyd at 2019/20 Ch3, roedd perfformiad cryf gan Gronfa Busnes Cymru a ariannwyd gan yr UE. Roedd hyn wedi buddsoddi mwy nag £8m yn nhrydydd chwarter blwyddyn ariannol 2019/20, gan gyrraedd cyfanswm buddsoddiad o £115m

i 2019/20 Ch3. Mae Cronfeydd eraill yn cynnwys Cronfa Eiddo Cymru (£42m, £7m o fuddsoddiad newydd yn 2019/20 Ch3), Cronfa Twf Cyfalaf Cymru (£25m o gyfanswm y buddsoddiad), a Chronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru (£23m o gyfanswm y buddsoddiad).

Dadansoddiad portffolio buddsoddi datblygu eiddo Banc Datblygu Cymru (BDC).


Mae portffolio datblygu eiddo'r Banc Datblygu yn gydran bwysig a chynyddol o fusnes y Banc. Mae'r ACh hwn yn canolbwyntio ar dwf portffolio buddsoddi datblygu eiddo'r Banc Datblygu dros amser, yn seiliedig ar berfformiad Cronfa Eiddo Cymru, Cronfa Twf Cyfalaf Cymru, a Chronfa Safleoedd Segur Cymru. Yn ddiweddar, lansiodd Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru'r cynllun Hunanadeiladu Cymru gwerth £210m i gefnogi hunan-adeiladu. Mae hyn yn cefnogi dod o hyd i blotiau gyda chaniatâd cynllunio, yn osgoi talu elw datblygwyr trydydd parti ar adeiladau newydd a dim ond ar ôl eu cwblhau y mae'n rhaid ad-dalu'r benthyciadau a ddarperir. Cyn 2018, ni chafwyd adroddiadau ffurfiol ar fetrigau eiddo gyda pharhad ar draws y cronfeydd eiddo

ac felly mae'r ffigurau a gyflwynir yma ar gyfer y cyfnod 2014 i 2017 yn is na'r gwir a gyflawnwyd.

Mae archwilio adeiladau a grëwyd neu a adnewyddwyd, a ddatblygwyd ar dir, ac unedau a adeiladwyd o fuddsoddiadau yn rhoi mewnlwg gwerthfawr mewn perthynas â marchnad dai Cymru. Rhwng 2014/15 a 2018/19, gwnaed 503 o fuddsoddiadau (buddsoddiad o £66.7m), gan greu neu adnewyddu adeiladau yn dod i gyfanswm arwynebedd o 8,794.7 m² a datblygu 287,869 m² o dir. Yn 2014/15, crëwyd neu adnewyddwyd 390 m² o adeiladau gyda 6,400 m² o dir wedi'i ddatblygu, gyda hyn yn cynyddu i 3,544 m² o adeiladau a 159,700 m² o dir wedi'i ddatblygu yn 2018/19 (Ffigur 16).

Ffigur 16.

Eiddo / adeiladau wedi'u creu a thir wedi'i ddatblygu o fuddsoddiadau Banc Datblygu Cymru




Mae Ffigur 17 yn dangos bod 735 o unedau tai wedi'u hadeiladu o fuddsoddiadau Banc Datblygu Cymru rhwng 2014/15 a 2018/19.

Mae'r niferoedd blynyddol wedi cynyddu'n sylweddol o 31 yn 2014/15 i 342 yn 2018/19.

Ffigur 17.

Unedau tai wedi'u hadeiladu o fuddsoddiadau Banc Datblygu Cymru



Mae'r buddsoddiadau hyn yn gysylltiedig â chreu a diogelu cyflogaeth. Fe wnaeth y buddsoddiadau cysylltiedig ag eiddo greu neu ddiogelu 466 o swyddi rhwng 2014/15 a 2018/19.

Mae buddsoddiadau eiddo Banc Datblygu Cymru wedi creu 7 swydd am bob £1 miliwn a fuddsoddiwyd a 0.63 o swyddi fesul uned gartref a adeiladwyd rhwng 2014/15 a 2018/19.

Mae pob arwydd bod economïau'r DU a'r UE yn mynd i brofi cyfnod o dwf economaidd arafach hyd yn oed yn absenoldeb y 'sioc' economaidd a achoswyd gan yr achosion Coronafirws.

Er bod rhywfaint o optimistiaeth y gallai buddsoddiad busnes gwael gael ei wrthbwysu'n rhannol gan wariant cryfach gan ddefnyddwyr, mae hyn bellach wedi'i roi yn y fantol gan effeithiau cyfun tywydd gwael yn ystod misoedd agoriadol 2020 a'r Coronafirws. Mae'n anochel y bydd y 'sioc' fyd-eang hon sy'n dod i'r amlwg yn effeithio ar y DU a Chymru wrth i gadwyni cyflenwi a gweithgaredd economaidd gael eu tarfu¹³. Ar yr un pryd, roedd y cyd-destun economaidd cenedlaethol eisoes yn herio rhagolygon busnesau bach yng Nghymru, yn enwedig wrth weithredu cyfnod pontio'r UE.

Bydd ACh yn y dyfodol yn ymchwilio i ba raddau y mae'r amodau economaidd tlotach yn ystod misoedd agoriadol 2020 yn bwydo i alwadau BBaCh am gyllid, a gweithgaredd buddsoddi sylfaenol. Bydd hefyd yn ddiddorol archwilio tueddiadau risg credyd BBaCh eleni, a pha mor bell y mae'r arafu yn effeithio ar lefel y galw am y cyllid a ddarperir gan y Banc Datblygu.

O ddiddordeb o ran cyd-destun ar gyfer ochr gyflenwi cyllid BBaCh yng Nghymru fydd datblygu strwythur buddsoddiad rhanbarthol ar ôl Brexit. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n gyhoeddus ar Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru (tan fis Mai 22ain o 2020) a gyda rhan o'r ymgynghoriad yn nodi: "bod llwyddiant mewn cyllid Ewropeidd yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn y defnydd o gyllid ad-daladwy i sicrhau canlyniadau cadarnhaol a chost effeithiol" (t17). Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datgelu bod rhan o weledigaeth y dyfodol yn canolbwyntio ar Gynhyrchedd a Chystadleurwydd ac mai elfen o'r gefnogaeth ddisgwyliedig fydd y defnydd parhaus o gyllid ad-daladwy lle nodir methiannau yn y farchnad. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y Coronafirws yn arwain at newidiadau yn y fframwaith buddsoddi rhanbarthol a chynnydd sylweddol yn yr adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo BBaCh.

Bydd adroddiad blynyddol ACh4 hefyd yn darparu rhywfaint o dystiolaeth ar yr effeithiau economaidd sy'n gysylltiedig â gwahanol elfennau o weithgaredd y Banc Datblygu yn ystod 2019/20.

¹³ Gweler <https://www.economist.com/international/2020/02/15/the-new-Coronavirus-could-have-a-lasting-impact-on-global-supply-chains?cid1=cust/ednew/n/bl/n/2020/02/29n/owned/n/n/nwl/n/n/UK/415278/n>

Dirnad Economi Cymru
Economic Intelligence Wales



bancdatblygu.cymru
developmentbank.wales

Development Bank of Wales Plc (Banc Datblygu Cymru ccc) is the holding company of a Group that trades as Development Bank of Wales. The Group is made up of a number of subsidiaries which are registered with names including the initials DBW. Development Bank of Wales Plc is a development finance company wholly owned by the Welsh Ministers and it is neither authorised nor regulated by the Prudential Regulation Authority (PRA) or the Financial Conduct Authority (FCA). The Development Bank of Wales (Banc Datblygu Cymru ccc) has three subsidiaries which are authorised and regulated by the FCA. Please note that neither the Development Bank of Wales Plc (Banc Datblygu Cymru ccc) nor any of its subsidiaries are banking institutions or operate as such. This means that none of the group entities are able to accept deposits from the public. A complete legal structure chart for Development Bank of Wales Plc can be found at [developmentbank.wales](https://www.developmentbank.wales).